# Chwarae a dysgu gweithredol

## Pecyn cymorth ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen

**Medi 2009**



Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd / Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl

Iechyd a Gwaith / Health at Work

# Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol (GAALlau);
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

# Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/ cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy e-bost at **cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk**

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: **www.estyn.gov.uk**

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

© Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/adroddiad penodol.



# Rhagair

**Er y croeso y mae wedi ei gael gan ymarferwyr mewn ysgolion a gynhelir yn y cyfnod cynradd a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, nid yw'r Cyfnod Sylfaen yn dod heb ei heriau.**

Efallai mai'r her fwyaf y mae'r Cyfnod Sylfaen yn ei chynnig i ysgolion a lleoliadau yw cysoni cwricwlwm sydd wedi'i seilio'n fwy ar chwarae ac sy'n fwy arbrofol, ochr yn ochr ag angen clir i wella cyflawniad a chyrhaeddiad plant. Yn fy Adroddiad Blynyddol diwethaf tynnais sylw at y ffaith fod safonau ar gyfer plant saith oed yng Nghymru wedi gwella yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ond dim ond o fymryn. Yn amlwg, ni fydd rhagor o'r un peth yn gwella'r darlun. Mae tystiolaeth o wledydd eraill, yn enwedig gwledydd Llychlyn, yn dangos i ni fod chwarae a dysgu gweithredol yn gallu bod yn llwyddiannus iawn wrth ysgogi ein plant i ddysgu a chyflawni. Fodd bynnag, mae angen i gwricwlwm sydd wedi'i seilio ar chwarae ac sy'n arbrofol fod wedi'i gynllunio'n dda, wedi'i drefnu'n dda, ac yn bwrpasol os yw plant wir i elwa o'r profiadau hyn.

Nod y pecyn cymorth hwn yw nodi nodweddion arfer dda ac i ddangos hyn ar ffurf astudiaethau achos o ysgolion a lleoliadau yng Nghymru lle mae'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Rwyf yn gobeithio, wrth wneud hyn, ein bod yn helpu rhannu arfer dda y mae arolygwyr Estyn wedi dod o hyd iddi yn ystod yr arolwg hwn o chwarae a dysgu gweithredol, fel y gall ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ddysgu oddi wrth ei gilydd. Yn y pecyn cymorth rydym yn llunio rhai cwestiynau i ymarferwyr ofyn iddynt eu hunain wrth gynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu.

Hyderaf y bydd y pecyn cymorth hwn o ddefnydd i chi.

Bill Maxwell

**Dr Bill Maxwell**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Nod y pecyn cymorth hwn yw nodi nodweddion arfer dda ac i ddangos hyn ar ffurf astudiaethau achos o ysgolion a lleoliadau yng Nghymru lle mae'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.**

# Cynnwys


Tudalen

**Defnyddio'r pecyn cymorth ac astudiaethau achos** 1

**Safonau a phrofiadau dysgu** 2

**Cwestiwn 1:** A ddefnyddir chwarae a dysgu gweithredol yn dda i ysgogi a symbylu plant i ddysgu?

**Safonau** 10

**Cwestiwn 2:** A yw chwarae a dysgu gweithredol yn llwyddiannus wrth ddatblygu agweddau, medrau a gwybodaeth plant ar draws pob maes dysgu?

**Addysgu** 16

**Cwestiwn 3:** A yw ymarferwyr yn defnyddio cyfleoedd chwarae a dysgu gweithredol i atgyfnerthu ac ehangu dysgu'r plant?

**Cwestiwn 4:** A yw ymarferwyr yn cynllunio'r cwricwlwm a'r amgylchedd er mwyn galluogi plant i fod yn ddysgwyr gweithredol?

**Cwestiwn 5:** A oes gan ymarferwyr nodau ac amcanion clir ar gyfer dysgu plant drwy chwarae?

**Profiadau dysgu a lles** 32

**Cwestiwn 6:** A yw plant yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o benderfynu ar ffocws y wers, ac wrth gynllunio a gosod ardaloedd chwarae y tu fewn ac yn yr awyr agored?

**Addysgu ac arweinyddiaeth** 38

**Cwestiwn 7:** Pa mor wybodus yw ymarferwyr ynghylch pwrpas a defnydd asesu?

**Gwella ansawdd** 43

**Cwestiwn 8:** Sut y mae ymarferwyr yn gwybod bod dulliau chwarae a dysgu gweithredol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant?

**Cydnabyddiaethau** 46

# Defnyddio'r pecyn cymorth ac astudiaethau achos

**Dylai'r pecyn cymorth hwn a'r astudiaethau achos helpu ymarferwyr i:**

- godi safonau cyflawniad plant drwy ystyried pa mor dda y maent yn darparu profiadau chwarae a dysgu gweithredol o ansawdd ar hyn o bryd;
- nodi a dathlu eu cryfderau wrth ddarparu profiadau chwarae a dysgu gweithredol o ansawdd;
- cydnabod ble mae angen cynnal darpariaeth o ansawdd da;
- nodi meysydd ble mae lle i wella;
- gwneud penderfyniadau ynghylch sut i wella; a
- hyrwyddo arfer dda.

Nod y pecyn cymorth yw cynnig cymorth ymarferol i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau wrth weithredu chwarae ac ymagwedd weithredol i ddysgu. Mae'r pecyn cymorth yn cefnogi Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru[1].

Yn y pecyn cymorth hwn, mae arolygwyr yn llunio saith cwestiwn i'w defnyddio gan ymarferwyr wrth arfarnu pa mor dda y maent yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mae gan bob cwestiwn gwestiynau atodol. Hefyd, mae gan bob cwestiwn enghreifftiau o astudiaethau achos sy'n dangos sut y mae ymarferwyr da yn helpu plant i ddysgu drwy chwarae.

Dylai'r cwestiynau atodol helpu ymarferwyr i lunio barn gyffredinol ar gyfer pob prif gwestiwn. Cymerwch gwestiwn 4, er enghraifft, 'A yw ymarferwyr yn cynllunio'r cwricwlwm a'r amgylchedd er mwy galluogi plant i fod yn ddysgwyr gweithredol?' Mae'r cwestiynau atodol yn gofyn sut y caiff adnoddau, amser a gofod eu trefnu. Dylai meddwl am y rhain helpu ymarferwyr i lunio barn ynghylch cynllunio.

Nid oes ffordd gywir neu anghywir o ddefnyddio'r pecyn cymorth. Dylai ymarferwyr ei ddefnyddio yn y ffordd sydd fwyaf addas ar eu cyfer. Er enghraifft, gall ymarferwyr ddewis cymryd trosolwg bras o'u darpariaeth bresennol ar gyfer chwarae a dysgu gweithredol drwy gwblhau'r pecyn cymorth cyfan mewn un neu ddwy sesiwn. Bydd hyn yn darparu crynodeb cyflym iddynt o ansawdd eu chwarae a dysgu gweithredol. Fel arall, gall ymarferwyr ddewis ymagwedd fwy manwl ac sydd â ffocws pendant drwy nodi un prif gwestiwn ar y tro ac ystyried pob cwestiwn atodol yn fanwl. Yn y naill achos neu'r llall dylai astudiaethau achos helpu symbylu trafodaethau, wrth i ymarferwyr gymharu eu harfer eu hunain â'r astudiaethau achos.

[1] Wrth baratoi'r cyhoeddiad hwn, defnyddiwyd deunyddiau a gynhyrchwyd gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau er mwyn cefnogi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Yn arbennig, gwnaethpwyd defnydd o 'Chwarae/Dysgu Gweithredol', 'Arsylwi ar Blant' ac 'Addysgeg Dysgu ac Addysgu'.

# Safonau a phrofiadau dysgu

**Cwestiwn 1:**
A ddefnyddir chwarae a dysgu gweithredol yn dda i ysgogi a symbylu plant i ddysgu?

## A yw ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn:

- yn mentro'n ofalus ac yn dysgu oddi wrth eu camgymeriadau;
- yn profi dysgu drostynt eu hunain, mewn ffyrdd dychmygus, symbylol a heriol y tu mewn ac yn yr awyr agored;
- yn cymryd rhan mewn dysgu - yn weithredol ac nid yn oddefol;
- wedi'u ffocysu, wedi'u hysgogi ac wedi'u hudo gan ddysgu;
- yn arddangos eu bod yn fodlon, yn ymgysylltu ac yn mwynhau;
- yn cael eu hannog i ddod yn ddysgwyr annibynnol;
- yn cydweithredu'n dda â phlant eraill ac oedolion;
- yn rhoi eu syniadau eu hunain ar waith, gan ddechrau ac arwain gweithgareddau o dro i dro; a
- yn cael digon o amser i ddatblygu'r mathau o chwarae a ddewiswyd ganddynt?



**Astudiaethau achos** Mae'r astudiaethau achos hyn yn darparu enghreifftiau o sut y mae chwarae a gweithgareddau eraill yn helpu plant i ddysgu. Ymhob un o'r enghreifftiau bron, profodd y plant eu syniadau eu hunain a dysgu oddi wrth eu camgymeriadau yn ogystal â'u llwyddiannau. Cafodd dysgu'r plant ei gefnogi'n dda gan ymarferwyr.

## Adrodd Straeon - 'Y Tri Bwch Gafr'

### Cyd-destun

**Roedd grŵp o blant pump oed mewn ysgol yn dysgu sut i osod trefn ar stori'n gywir.**

### Beth a wnaeth y plant?

Cafodd grŵp o blant pump oed eu hannog i ail-lunio stori 'Y Tri Bwch Gafr'. Roedd yn rhaid iddynt benderfynu pwy fyddai'n chwarae pob cymeriad, beth y byddent yn eu defnyddio i gynrychioli pob un a sut y byddent yn creu pont i groesi'r dŵr yn yr hambwrdd dwr. Roedd dod o hyd i anifeiliaid o deganau i gynrychioli'r Tri Bwch Gafr a'r ellyll yn eithaf syml ond nid oedd datrys problem y bont mor hawdd. Dewisodd y plant gerrig mân i gynrychioli'r bont ond roedd y cerrig mân yn rhy fach i adeiladu pont addas, ac roedd yn golygu bod y Tri Bwch Gafr yn croesi'r 'bont' o dan y dŵr. Ar gyfer eu hymgais nesaf i godi pont, defnyddion nhw blociau pren bach, ond, yn anffodus, roedd y blociau'n arnofio i wyneb y dŵr. Yn y pen draw defnyddiodd y plant dwy garreg fawr i greu pont. Gwnaethant ailadrodd y stori yn y drefn gywir gan ymgymryd â rôl cymeriadau'r stori drwy ddefnyddio lleisiau gwahanol.

### Beth a ddysgon nhw?

Roedd actio'r stori'n golygu bod y plant wedi dysgu cofio ac ailadrodd y stori yn ei threfn gywir. Gwnaethon nhw ddysgu medrau trafod wrth benderfynu pwy fyddai'n chwarae'r rolau amrywiol: "Pwy fydd…?" Trwy ddatrys problem y bont gwnaethon nhw ddysgu bod pren yn ddeunydd sy'n arnofio mewn dŵr a bod yn rhaid i bileri pont fod yn ddigon uchel i sicrhau bod y bont ei hun allan o'r dŵr yn ddiogel.

### Meysydd dysgu

- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

**Roedd dod o hyd i anifeiliaid o deganau i gynrychioli'r Tri Bwch Gafr a'r ellyll yn eithaf syml ond nid oedd datrys problem y bont mor hawdd.**

# Creu tanc pysgod

## Cyd-destun

**Roedd grŵp o blant tair oed mewn lleoliad yn dysgu sut i ofalu am anifeiliaid anwes.**

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad corfforol

Dysgon nhw i archwilio ac arbrofi gyda deunyddiau er mwyn dysgu beth sy'n digwydd i ddeunyddiau pan yr ydych yn eu gludo.

## Beth a wnaeth y plant?

Ar ôl ymweld â siop anifeiliaid anwes gydag ymarferydd i brynu graean, planhigion dŵr a bwyd ar gyfer eu pysgod aur newydd, penderfynodd grŵp o blant greu eu tanciau pysgod eu hunain er mwyn chwarae rôl fel siop anifeiliaid anwes. Arbrofodd y plant hyn ag ystod o ddeunyddiau i greu eu tanciau pysgod, gan gynnwys defnyddio reis i gynrychioli graean. Er bod digonedd o ddeunyddiau, roedd adegau o hyd pan yr oedd yn rhaid i blant aros eu tro yn amyneddgar a rhannu. Dysgodd y plant yn fuan ei fod yn anodd iawn gludo gwrthrychau eraill i reis oni bai bod y reis wedi'i ledaenu'n eithaf gwastad. Dechreuodd nifer o blant osod y reis mewn patrymau, gan afael ar y gronynnau rhwng eu bys a'u bawd.



## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant nad yw'n deg i un plentyn gadw'r deunyddiau gorau i'w hunan. Dysgon nhw i archwilio ac arbrofi gyda deunyddiau er mwyn dysgu beth sy'n digwydd i ddeunyddiau pan yr ydych yn eu gludo. Er enghraifft, bydd papur sidan tenau yn rhwygo ac yn newid lliw pan gaiff llawer o lud ei roi arno. Wrth drafod gronynnau unigol reis er mwyn gwneud patrymau, gwnaeth y plant gryfhau eu medrau echddygol manwl.

# Adeiladu model o injan dân

## Cyd-destun

**Roedd dosbarth o blant chwe oed yn dysgu am 'bobl sy'n ein helpu'.**

## Beth a wnaeth y plant?

Ymwelon nhw â'u gorsaf dân leol, cwrdd a siarad â'r dynion tân a thynnu lluniau'r injans tân. Ar ôl dychwelyd i'r dosbarth, penderfynodd y plant greu injan dân gan ddefnyddio bocsys. Roeddent am i'w injan dân fod mor realistig â phosibl ac roeddent yn awyddus i roi drychau ystlys, sychwyr ffenestri a golau glas a oedd yn fflachio arno. Ar ôl llawer o brofi a methu, llwyddodd y plant i osod y drychau ystlys a'r sychwyr ffenestri ar y model mawr o focsys cardfwrdd wedi'u peintio. Roedd rhoi golau glas a oedd yn fflachio i'r injan yn fwy anodd, ond, gyda help gan ymarferwyr, adeiladodd y plant gylchred trydanol a swîts syml. Cyn pen dim, cysylltwyd bwlb glas o goeden Nadolig ac roedd y dynion tân ar eu ffordd.

## Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant sut i weithio gyda'i gilydd yn gydweithredol a sut i ddatrys problemau. Trwy geisio dod o hyd i ffyrdd i osod y sychwyr ffenestri a'r drychau ar yr injan dân, dysgon nhw rywbeth am briodweddau deunyddiau.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad creadigol

Ar ôl llawer o brofi a methu, llwyddodd y plant i osod y drychau ystlys a'r sychwyr ffenestri ar y model mawr o focsys cardfwrdd wedi'u peintio.

# Ymweld â'r feddygfa

## Cyd-destun

**Mae plant tair oed mewn ysgol yn dysgu am eu hunain, sut y maent yn tyfu a beth all eu gwneud yn sâl.**

## Beth a wnaeth y plant?

Fel rhan o'r prosiect, ymwelodd y plant â'r meddyg. Ar ôl yr ymweliad, gwnaeth y plant droi'r ardal chwarae rôl yn feddygfa ac ystafell aros. Gwnaethpwyd defnydd da o'r ardal chwarae rôl er mwyn annog y plant i archwilio amrywiaeth o fedrau, profiadau ac emosiynau. Trwy archwilio a chwarae'n ddigymell, gwnaethon nhw ymarfer defnyddio'r ffôn a bysellfwrdd y cyfrifiadur. Gyda rhywfaint o ymyrraeth gan oedolyn, defnyddion nhw iaith Saesneg a oedd yn briodol i'r sefyllfa, gan gynnwys 'making an appointment' a defnyddio rhywfaint o eirfa Gymraeg syml yn gywir fel "Ga i" a "Mae bola tost da fi".

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant eirfa newydd yn y Saesneg ac yn y Gymraeg. Gwnaethon nhw ddysgu sut i ddefnyddio'r ffôn er mwyn trefnu apwyntiadau a sut y defnyddir y cyfrifiadur i gadw gwybodaeth. Trwy chwarae rôl, dysgodd y plant am sut i fynegi eu teimladau a'u pryderon ynghylch mynd i'r feddygfa pan maent yn sâl.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- sgiliau iaith, lythrennedd a chyfathrebu
- datblygiad iaith Gymraeg

Gwnaethon nhw ddysgu sut i ddefnyddio'r ffôn er mwyn trefnu apwyntiadau a sut y defnyddir y cyfrifiadur i gadw gwybodaeth.

# Ar y safle adeiladu

## Cyd-destun

**Datblygodd lleoliad y blynyddoedd cynnar safle adeiladu ar eu tir. Cafodd yr ardal ei chyflenwi â detholiad o ddeunyddiau ac offer go iawn, fel pibau plastig, cafnau a brics.**

## Beth a wnaeth y plant?

Ar y safle adeiladu, gwisgodd y plant hetiau caled a defnyddio setiau radio symud a siarad ('walkie-talkie') er mwyn cyfathrebu â'i gilydd. Yn ystod yr adeiladu, defnyddiodd y plant dâp melyn i gau rhai rhannau'r safle ac arddangos posteri yn rhybuddio perygl dod ar y safle adeiladu. Gwnaeth y plant roi cynnig ar eu syniadau eu hunain ynghylch sut i sicrhau nad oedd y brics yn syrthio. Cymysgodd rhai plant eu sment eu hunain, drwy gyfuno tywod a glud, tra yr oedd grŵp arall yn defnyddio tâp masgio i ludo'r briciau gyda'i gilydd. Chwaraeodd y plant ar y cyd er mwyn codi adeiladau amrywiol, fel cawod i dedi neu gartref i'r gwningen o degan. Roedd yr ardal chwarae rôl hon yn darparu cyfleoedd gwych i blant ymchwilio i briodweddau deunyddiau a datrys problemau. Cafodd y chwarae ei wella wrth gyflwyno sach ar olwynion, a oedd yn cynnwys cynfas daear, rhwydi cargo, tapiau mesur, blwch offer a set rholer paent.

## Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant bwysigrwydd cydweithio a bod timau yn aml yn gallu cyflawni mwy nag unigolion ar eu pen eu hunain. Dysgodd y plant i siarad yn glir er mwyn sicrhau bod pobl yn eu deall wrth ddefnyddio'r setiau radio symud a siarad. Hefyd, dysgon nhw fod gan ysgrifennu bwrpas pwysig yn rhybuddio pobl am bethau sy'n beryglus.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- sgiliau iaith, lythrennedd a chyfathrebu
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

**Roedd yr ardal chwarae rôl hon yn darparu cyfleoedd gwych i blant ymchwilio i briodweddau deunyddiau a datrys problemau.**

# Pen-blwydd hapus

## Cyd-destun

**Roedd plant tair oed mewn lleoliad yn ymarfer ac yn mwynhau pwysigrwydd dathlu.**

## Beth a wnaeth y plant?

Fel rhan o'r pwnc 'Amdanaf i', sylweddolodd ymarferwyr yn fuan bod gan blant ddiddordeb arbennig mewn dathliadau pen-blwydd. I wneud y gorau o frwdfrydedd a diddordeb y plant, darparwyd llawer o dasgau gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud toes ar gyfer bisgedi parti, gwneud jeli o sudd ffrwythau, cynllunio a chreu hetiau, bathodynnau ac addurniadau ar gyfer y parti, defnyddio rhaglen tynnu llun ar y cyfrifiadur i gynllunio cacen pen-blwydd, torri matiau parti a defnyddio deunyddiau y gellir eu hailgylchu i wneud cacennau pen-blwydd ffug. Digwyddodd yr holl weithgareddau ar yr un pryd, gydag oedolion yn arwain gweithgareddau fel gwneud jeli o sudd ffrwythau y byddai'r plant yn eu mwynhau yn hwyrach. Cafodd gweithgareddau eraill eu cefnogi'n anffurfiol gan oedolion. Trwy ddarparu ystod eang o weithgareddau i blant ddewis o'u plith, sicrhaodd ymarferwyr fod y plant bob amser yn weithredol ac yn ymgysylltu.

## Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant i gymysgu, trefnu a chyfuno deunyddiau, lliwiau a siapau er mwyn creu gwrthrychau a lluniau a oedd yn berthnasol i'r thema parti. Dysgodd y plant sut i drafod offer bach fel siswrn a llwyau cymysgu a sut i reoli llygoden cyfrifiadur. Cawson nhw hwyl yn dathlu eu pen-blwyddi dychmygol ac yn bwyta jeli o sudd ffrwythau.

## Meysydd dysgu

- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad corfforol
- datblygiad creadigol

**Dysgodd y plant i gymysgu, trefnu a chyfuno deunyddiau, lliwiau a siapau er mwyn creu gwrthrychau a lluniau a oedd yn berthnasol i'r thema parti.**

# Gall bondiau rhif fod yn hwyl

## Cyd-destun

**Roedd dosbarth o blant saith oed yn ymgymryd â gweithgaredd yn yr awyr agored a oedd yn gysylltiedig â'u prosiect dosbarth am y môr.**

## Beth a wnaeth y plant?

Roedd y gweithgaredd yn cynnwys datrys problemau a bwrw golwg yn ôl dros waith yn ymwneud â bondiau rhif i 10 (i blant is eu gallu) a bondiau rhif i 20 (i blant gallu uwch). Cafodd y plant eu rhannu yn grwpiau a chyflwynwyd y broblem ganlynol iddynt: mae'r llong yn suddo ac mae'n rhaid i'r criw ddefnyddio bad achub i groesi'n ddiogel i'r ynys; ac mae pob bad achub yn dal 10 cilogram neu 20 cilogram.

Rhoddwyd rhif i bob un o'r plant a dywedwyd wrthynt mai dyma oedd eu pwysau mewn cilogramau. Roedd yn rhaid i'r plant ddod o hyd i ffyrdd o gyfuno'r rhifau er mwyn mynd â chymaint o blant â phosibl yn y bad achub i'r ynys. Achosodd hyn lawer o drafod. Ar ôl i'r bad achub wneud un daith, sylweddolodd y plant nad oeddent yn gallu mynd yn ôl i gasglu aelodau eraill y grŵp. Arweiniodd hyn at ragor o drafod - a allwn ni ei daflu yn ôl, nofio yn ôl ag ef (mae'r dŵr yn llawn siarcod a chreaduriaid eraill)?

Yn y diwedd, sylweddolodd pob grŵp fod angen i rywun ddod yn ôl ar y bad achub i gasglu'r lleill. Pwy ddylai ddod yn ôl, yr unigolyn gyda'r rhif isaf neu uchaf? Roedd yn rhaid ailgyfrif. Gwnaeth y gweithgaredd hwn ysgogi a symbylu plant i ddysgu, gan ddefnyddio bondiau rhif mewn ffordd hwyl ac ymarferol.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant i ddatrys argyfwng a oedd yn cynnwys bondiau rhif yn bwrpasol i ddatrys problem ymarferol. Helpodd hyn y plant i ymarfer a chyfnerthu eu medrau mathemategol meddyliol. Dysgodd plant unigol i fabwysiadu rôl arweiniol drwy fod yn gyfrifol am y badau achub.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- datblygiad mathemategol

**Gwnaeth y gweithgaredd hwn ysgogi a symbylu plant i ddysgu, gan ddefnyddio bondiau rhif mewn ffordd hwyl ac ymarferol.**

# Safonau

## Cwestiwn 2:

A yw chwarae a dysgu gweithredol yn llwyddiannus wrth ddatblygu agweddau, medrau a gwybodaeth plant ar draws pob maes dysgu?

### A yw ymarferwyr:

- yn cynllunio eu gwaith er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i chwarae a dysgu gweithredol yn datblygu medrau a dealltwriaeth plant ar draws pob maes dysgu;
- yn sicrhau bod cynllunio ymhob maes dysgu yn ymgorffori dull mwy gweithredol o ddysgu;
- yn arfarnu faint y mae plant wedi ymgysylltu â dysgu ac yn ymyrryd os yw lefelau diddordeb yn dechrau disgyn;
- â bwriad clir ar gyfer y dysgu a ddylai ddigwydd o ganlyniad i'r cyfleoedd y maent yn eu darparu;
- yn gwirio'r hyn y mae'r plant wedi'i ddysgu yn ystod gweithgareddau chwarae;
- yn monitro ac arfarnu'r ddarpariaeth y maent yn ei chynnig ar gyfer chwarae a dysgu gweithredol drwy ofyn cwestiynau pwysig fel:
  - Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r plant?
  - A yw'r plant wedi elwa o'r profiadau hyn?
  - A yw pob plentyn wedi elwa neu a yw rhai plant wedi elwa'n fwy na phlant eraill a pham?;
- yn caniatáu i blant wneud camgymeriadau a'u helpu i weld pam nad yw rhai pethau wedi gweithio;
- yn gwneud defnydd da o'u medrau a'u diddordebau eu hunain, fel defnyddio eu harbenigedd mewn garddio er mwyn annog plant i blannu hadau a gweld pethau'n tyfu; a
- darparu model rôl cadarnhaol i blant drwy rannu sut y maen nhw eu hunain yn dysgu rhywbeth neu wedi dysgu rhywbeth?



**Astudiaethau achos** Mae'r astudiaethau achos hyn yn darparu enghreifftiau o sut y mae chwarae a gweithgareddau eraill yn helpu plant i ddatblygu ymhob maes dysgu. Mae plant yn arddangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu, yn archwilio syniadau newydd ac yn cryfhau eu dealltwriaeth o gysyniadau a syniadau.

## Creu cwrs rhwystrau

### Cyd-destun

**Er mwyn atgyfnerthu iaith leoli, gweithiodd grŵp o blant tair oed yn yr awyr agored gydag ymarferydd i ddylunio a chreu cwrs rhwystrau syml.**

### Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- datblygiad mathemategol

### Beth a wnaeth y plant?

Chwiliodd y plant yn yr ardal awyr agored er mwyn dod o hyd i deiars, cewyll, bwced, cylchau a boncyffion a, gyda chymorth yr ymarferydd, gwnaethon nhw greu cwrs rhwystrau a oedd yn cynnwys hefyd foncyff parhaol, ardal 'cerrig camu' a llithren. Wrth adeiladu'r cwrs rhwystrau, cafodd y plant eu hannog i ddefnyddio iaith leoli fel 'ar', 'wrth ymyl', 'o flaen' ac 'uwchben'.

### Beth a ddysgon nhw?

Gan fod llawer o'r offer yn eithaf trwm, dysgodd y plant i weithio gyda'i gilydd i'w gario. Dysgon nhw ei fod yn bwysig defnyddio iaith leoli'n gywir er mwyn adeiladu'r cwrs rhwystrau.



# Dysgu am Diwali

## Cyd-destun

**Roedd plant saith oed yn dysgu am ŵyl Diwali ac yn dysgu am y bwyd a ddefnyddir mewn dathliadau.**

## Beth a wnaeth y plant?

Ar ôl trafodaeth fer am Diwali, dewisodd grŵp o blant gynllunio a gwneud melysion arbennig. Gwnaethon nhw gynllunio'r hyn y byddai eu hangen arnynt i wneud y melysion a daethon nhw o hyd i'w cynhwysion a'u hoffer eu hunain. Ar ôl gwneud y melysion, gofynnon nhw i blant eraill yn y dosbarth i'w blasu a rhoi marciau allan o 10 iddynt. Gwnaeth ymarferwyr arddangos geiriau a ddefnyddir wrth goginio ar gardiau, yn dangos geiriau Cymraeg fel 'oer', 'poeth', a 'melys' yn yr ardal goginio, a chafodd y plant eu hannog i ddefnyddio'r eirfa hon wrth goginio.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu chwarae a dysgu gweithredol bob dydd. Dysgon nhw am sut y gall bwydydd newid wrth gyfuno cynhwysion. Dysgon nhw hefyd am arwyddocâd gŵyl Diwali.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- datblygiad iaith Gymraeg
- gwybodaeth a daelltwriaeth o'r byd
- datblygiad creadigol

Ar ôl gwneud y melysion, gofynnon nhw i blant eraill yn y dosbarth i'w blasu a rhoi marciau allan o 10 iddynt.

# Creu siapau tair ochr

## Cyd-destun

**Roedd grŵp o blant tair oed hefyd yn dysgu am Diwali.**

## Beth a wnaeth y plant?

Yn hyderus, tynnodd y plant lun patrymau triongl mewn tywod lliw er mwyn cynrychioli'r samosas yr oeddent wedi'u gwneud a'u bwyta yn y dosbarth.

## Beth a ddysgon nhw?

Trwy'r profiad ymarferol o wneud y samosas, dysgodd y plant os ydych yn tynnu llun siâp â thair ochr mae'n dal i fod yn driongl, hyd yn oed os yw wyneb i waered neu os oes ganddo ochrau o feintiau gwahanol.

## Meysydd dysgu

- datblygiad mathemategol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

# Casglu dail

## Cyd-destun

**Yn ystod eu chwarae yn awyr agored, casglodd grŵp o blant chwech oed sach fawr iawn o ddail, a phenderfynon nhw eu trefnu yn sachau llai er mwyn eu hongian ar fachau yn y dosbarth i bawb gael eu defnyddio.**

Awgrymodd un plentyn y dylid edrych ar y siapiau er mwyn gweld a oedd gan y dail big fain.

## Beth a wnaeth y plant?

I ddechrau, trefnodd y plant y dail yn ddau bentwr, un pentwr o ddail lliw ac ail bentwr o ddail gwyrdd. Gan eu bod yn anfodlon â hyn, oherwydd byddai dwy sach lawn wedi bod yn rhy fawr i'r bachau, penderfynon nhw rannu'r dail i yn ddail mawr lliw a dail bach lliw. Ailadroddodd y plant yr ymarfer hwn ar gyfer y dail gwyrdd. Awgrymodd un plentyn y dylid edrych ar y siapiau er mwyn gweld a oedd gan y dail big fain. Arweiniodd hyn at setiau o 'ddail gwyrdd mawr â phig fain' a 'dail gwyrdd bach â phig fain', gydag ailadrodd yr un broses ar gyfer y dail lliw. Awgrymodd plentyn arall bwyso'r dail ond sylweddolodd y plentyn ymhen dim fod y dail yn rhy ysgafn i'r glorian. Gyda rhywfaint o gymorth gan yr ymarferydd, creodd y plant un math arall gan ddefnyddio hyd, h.y. dail yn hirach na fy llaw / byrrach na fy llaw.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant y gellir trefnu gwrthrychau gan ddefnyddio meini prawf gwahanol. Profon nhw eu syniadau a gwerthfawrogi cyfraniadau pobl eraill.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- datblygiad mathemategol



# Mae aliwn yn ymweld

## Cyd-destun

**Roedd dosbarth o blant pump a chwech oed yn dysgu llawer o rigymau rhif newydd. Daeth un rhigwm yn arbennig, yn ymwneud ag aliwn, yn ffefryn gan y dosbarth.**

## Beth a wnaeth y plant?

Roedd y plant wedi gwirioni cymaint ar gymeriad yr aliwn yn y rhigwm dechreuon nhw roi persona i'r aliwn. Gwnaeth yr athro dosbarth ddal y diddordeb hwn a'i gysylltu'n llwyddiannus â phwnc y dosbarth, sef 'Ein hunain'.

Y bore Llun nesaf, sylwodd y plant ar lwybr o lysnafedd gwyrdd yn mynd o'r iard i'r dosbarth. Yn amlwg, roedd yr aliwn wedi ymweld â nhw yn ystod y penwythnos.

Defnyddion nhw eu dychymyg i uniaethu â 'bod' a oedd yn wahanol iawn i'w hunain ac i feddwl am ffyrdd o gyfathrebu gyda bod o'r fath.

Yn y dosbarth roedd blwch o 'eiddo' yr oedd yr aliwn wedi'i adael ar ei ôl. Ar ôl llawer o drafod am gynnwys y blwch a'r defnydd y gallai fod gan yr aliwn ar ei gyfer, penderfynodd rhai o'r plant y byddent yn hoffi anfon eu blwch eu hunain at yr aliwn. Rhoddwyd deunyddiau yn yr 'ardal anniben' yn y dosbarth er mwyn caniatáu i'r plant hyn greu 'capsiwl' i'w anfon at yr aliwn.

Cafodd y plant eu hannog i feddwl am yr hyn y byddai'r aliwn am ei wybod amdanynt, fel faint oedd eu hoedran, sut yr oeddent yn edrych, ymhle'r oeddent yn byw, beth yr oeddent yn hoffi ei wneud ayb, ac i roi'r wybodaeth hon i mewn i'r capsiwl ynghyd ag unrhyw beth arall yr oeddent am ei anfon. Erbyn diwedd yr wythnos, roedd pob plentyn wedi dewis ymweld â'r gweithgaredd hwn. Ysgrifennodd bawb o leiaf rywfaint o wybodaeth am ei hunain i'w hanfon, gyda phlant o allu uwch yn ysgrifennu nifer o ddarnau. Ar ddiwedd yr wythnos, casglwyd y capsiwlau a'u 'hanfon' at yr aliwn.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant bod siarad ac ysgrifennu yn ffyrdd pwysig o rannu gwybodaeth ac y gellir defnyddio ysgrifennu i gofnodi cyfathrebu'n fwy parhaol a'i anfon i leoedd pell. Defnyddion nhw eu dychymyg i uniaethu â 'bod' a oedd yn wahanol iawn i'w hunain ac i feddwl am ffyrdd o gyfathrebu gyda bod o'r fath.

### Meysydd dysgu

- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

# Her yn yr awyr agored

## Cyd-destun

**Gwnaethpwyd defnydd da o'r ardal awyr agored er mwyn darparu cyfres o heriau yn ymwneud â phrosiect ar drafnidiaeth i ddosbarth o blant chwech a saith oed.**

## Beth wnaeth y plant?

Cyflwynwyd nifer o heriau i'r plant, fel:

- Sut y gallwch symud y bêl drwy'r conau?
- Sawl gwaith sydd angen gwthio'r sgwter i'w symud o amgylch y llwybr?
- Sawl ffordd wahanol y gallwch gael eich car o degan i symud o amgylch y mat?
- Sawl ffordd wahanol y gallwch symud eich cwch o degan ar draws yr hambwrdd o ddŵr?

Ymatebodd y plant â brwdfrydedd i'r heriau hyn.

## Beth a ddysgon nhw?


Dysgodd y plant am rymoedd syml fel gwthio a thynnu. Dysgon nhw sut i reoli gwrthrychau wrth iddynt gael eu symud.

## Meysydd dysgu

- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad corfforol



# Addysgu




## Cwestiwn 3:

A yw ymarferwyr yn defnyddio cyfleoedd chwarae a dysgu gweithredol i atgyfnerthu ac ehangu dysgu'r plant?

### A yw pob ymarferydd:

- yn arddangos gwybodaeth gadarn am ddatblygiad plant;
- yn rhannu dealltwriaeth glir o'r hyn y mae darparu addysg o ansawdd uchel i blant tair i saith oed yn ei olygu;
- yn deall eu rôl yn asesu dysgu plant er mwyn penderfynu'r hyn y dylai camau nesaf plant fod o ran dysgu;
- yn sicrhau bod plant yn teimlo'n ddigon i sicr i 'roi cynnig arni';
- yn deall bod adegau pan mae'n well gan blant 'wylio' dysgu plant eraill cyn 'rhoi cynnig arni' eu hunain;
- yn cefnogi ac yn herio meddwl plant yn ystod chwarae a dysgu gweithredol wrth fod yn rhan o'r broses feddwl gyda'r plant;
- â disgwyliadau uchel o'r hyn y gall plant ei wneud;
- yn deall pwysigrwydd pryd i ymyrryd a phryd i beidio ag ymyrryd mewn chwarae plant;
- yn defnyddio cwestiynu i annog plant i feddwl drostynt eu hunain, datrys problemau a bod yn greadigol;
- yn weithgar wrth hyrwyddo galluoedd plant i ddewis a gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain;
- yn neilltuo amser i wrando ar farn plant a gweithredu arni lle bynnag y bo'n bosibl; ac
- adeiladu ar ddysgu blaenorol plant drwy sicrhau bod gweithgareddau sydd ar lefel sy'n heriol ond sy'n dal i fod yn gyraeddadwy i'r plant?



**Astudiaethau achos** Mae'r astudiaethau achos hyn yn darparu enghreifftiau o sut y gall ymarferwyr ddefnyddio chwarae a dysgu gweithredol i annog plant i ddysgu medrau newydd neu i ddarparu cyfleoedd i blant ailadrodd, ymarfer neu fireinio'r medrau sydd ganddynt eisoes.

## Cacennau pen-blwydd yr hydref

### Cyd-destun

**Thema'r dosbarth derbyn oedd pen-blwyddi. Roedd yr ymarferwyr yn gwybod bod plant o'r oedran hwn wrth eu bodd yn siarad am eu pen-blwyddi.**

### Beth a wnaeth y plant?

Casglodd y plant amrywiaeth o eitemau o dir yr ysgol fel dail, brigau a cherrig bach a chafodd y rhain eu cadw mewn bwced mawr yn y dosbarth er mwyn i unrhyw un eu defnyddio. Defnyddiodd y plant hen fowldiau jeli yn y tywod i wneud cacennau pen-blwydd. Yna, cafodd y cacennau hyn eu haddurno â'r eitemau a gasglwyd o'r tu allan. Yn ystod y gweithgaredd hwn, cyfrodd y rhan fwyaf o blant yn gywir nifer y canhwyllau a pharu hyn â nifer yr addurniadau y gwnaethon nhw eu rhoi ar y gacen. Roedd plant uwch eu gallu hefyd yn medru 'rhannu' eu 'cacen' gyda'u ffrindiau drwy ei thorri yn ddarnau eithaf cyfartal ar gyfer nifer y ffrindiau a oedd yn bresennol.



### Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant i ymarfer trefnu a pharu gwrthrychau. Dysgon nhw i gyfrif gwrthrychau'n gywir. Gwnaethon nhw fagu hyder wrth arbrofi gyda gwrthrychau naturiol er mwyn creu eu cacennau hydref eu hunain.

### Meysydd dysgu

- datblygiad mathemategol
- datblygiad creadigol

# Deialu 999

## Cyd-destun

**Caiff pynciau eu dewis yn ofalus mewn lleoliad y blynyddoedd cynnar i adlewyrchu diddordebau plant. Roedd cynllunio'r tymor hwn yn gysylltiedig â'r themâu 'Pobl Sy'n Ein Helpu'.**

## Beth a wnaeth y plant?

Lleolwyd y chwarae rôl yn yr orsaf dân. Roedd gan yr orsaf dân wisgoedd dynion tân ac offer ymladd tân. Chwaraeodd y plant yn frwdfrydig yn y chwarae rôl a datblygodd nifer o grwpiau o blant sefyllfaoedd credadwy o'u cof neu o'u dychymyg, er enghraifft, ateb galwadau brys, diffodd tanau ac achub cathod a oedd yn sownd yn rhywle. Cafodd plant eu hannog i wisgo'u hunain, gan drafod stydiau gwasgu a sipiau gyda'r cymorth lleiaf posibl.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd plant i drafod clipiau a sipiau trafferthus. Dysgon nhw i ddefnyddio iaith briodol a therminoleg mewn gweithgareddau chwarae digymell a strwythuredig.

## Meysydd dysgu

- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad corfforol

Dysgodd plant i drafod clipiau a sipiau trafferthus.

# Mesur hyd

## Cyd-destun

**Roedd ymarferwyr yn datblygu ymagwedd fwy gweithredol tuag at ddysgu gyda dosbarth o blant saith oed, yn cysylltu gweithgareddau dewis rhydd a thasgau wedi'u ffocysu'n ofalus.**

## Beth a wnaeth y plant?

Roedd y plant yn defnyddio mesurau hyd safonol. Yn ystod gweithgareddau dewis rhydd yn yr ardal adeiladu a'r badell tywod, mesurodd a chymharodd plant yr hyn yr oeddent wedi'u hadeiladu, gan ddefnyddio prennau mesur a thapiau mesur.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant i ymarfer eu medrau mesur mewn amgylchedd chwarae 'di-straen'.

## Meysydd dysgu

- datblygiad mathemategol

# Awn i lawr i'r traeth

## Cyd-destun

**Gwnaeth plant mewn meithrinfa chwarae'n rheolaidd yn ardal chwarae rôl 'traeth' y dosbarth.**

## Beth a wnaeth y plant?

Ysgrifennodd a chopïodd y plant negeseuon yn y tywod, addurno'u cestyll tywod â cherrig mân a cherrig mwy a rholio a thorri toes er mwyn gwneud 'pysgod a sglodion' i'w gwerthu yn eu 'fan sglodion' symudol.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant fedrau llawysgrifen a datblygu eu cydsymudiad a'u medrau echddygol manwl.

## Maes dysgu

- datblygiad corfforol



# Defnyddio dyfynodau

## Cyd-destun

**Er mwyn atgyfnerthu gwaith yn ymwneud â defnydd o ddyfynodau, gosododd ymarferydd mewn dosbarth o blant chwech oed lwyfan yn y dosbarth er mwyn i'r plant gael ymarfer siarad fel cymeriadau mewn straeon.**

## Beth a wnaeth y plant?

Defnyddiodd y plant y llwyfan i ailadrodd straeon tylwyth teg cyfarwydd fel 'Y Tri Mochyn Bach' ac 'Elen Benfelen' neu i greu eu dramâu eu hunain. Ar ôl ychydig wythnosau o'r dramâu byrfyfyr hyn, cafodd y plant eu hannog i recordio eu dramâu a gweithio mewn grwpiau bach i ysgrifennu stori'n seiliedig ar eu drama. Defnyddiwyd y dramâu wedi'u recordio i atgoffa'r plant i ddefnyddio dyfynodau pe byddent yn defnyddio unrhyw ddeialog o'r tapiau.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant mai un ffordd o wneud straeon yn ddiddorol yw defnyddio deialog rhwng cymeriadau a bod angen iddynt nodi bod rhywun yn siarad drwy ddefnyddio dyfynodau wrth ysgrifennu.

## Maes dysgu

- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

**Defnyddiwyd y dramâu wedi'u recordio i atgoffa'r plant i ddefnyddio dyfynodau pe byddent yn defnyddio unrhyw ddeialog o'r tapiau.**



# Oes Fictoria

## Cyd-destun

**Roedd plant saith oed mewn dosbarth yn dysgu am oes Fictoria drwy ddarllen straeon am gymeriadau mewn cartref Fictoraidd. Yn ystod sesiwn Llyfr Mawr, gwisgodd yr ymarferydd fel morwyn cegin a dangos sut y byddai dillad wedi cael eu golchi.**

## Beth a wnaeth y plant?

Cafodd y plant eu hannog i feddwl am gwestiynau i ofyn i'r forwyn fel "Pam ydych chi'n rhwbio'r dillad ar fwrdd sgrwbio?" neu "Pa mor hir yr oedd hi'n cymryd i olchi llond twb o ddillad?" Yna, cafodd plant uwch eu gallu y dasg o ddod o hyd i atebion y cwestiynau hyn mewn llyfrau ac ar y rhyngrwyd. Daeth y plant hyn o hyd i'r rhan fwyaf o'r atebion a phenderfynu eu cyflwyno i'r dosbarth drwy ddeialog rhwng morwyn y gegin a'r wraig cadw tŷ. Gofynnwyd i grŵp arall o blant olchi ffedogau peintio'r dosbarth gan ddefnyddio'r twb golchi, y bwrdd sgrwbio a sebon. Cofnododd y plant yr hyn yr oeddent yn ei wneud gan ddefnyddio camera digidol a recordydd tâp er mwyn ei rannu â'r dosbarth cyfan. Yna, defnyddiwyd y wybodaeth hon i gymharu'r broses o olchi dillad yn awr ac yn y gorffennol.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant i ofyn cwestiynau perthnasol a nodi'r hyn yr oeddent am ei wybod. Gwnaethon nhw nodi'r gwahaniaethau rhwng ffordd o fyw'r gorffennol a'r presennol. Dysgodd y plant am fanteision technoleg mewn perthynas â thasg draddodiadol feichus golchi dillad a pha mor ddefnyddiol all technoleg fod pan yr ydych yn ymchwilio i bwnc.

## Meysydd dysgu


- sgiliau iaith llythrennedd a chyfathrebu
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Dysgodd y plant i ofyn cwestiynau perthnasol a nodi'r hyn yr oeddent am ei wybod.

## Cwestiwn 4:
## A yw ymarferwyr yn cynllunio'r cwricwlwm a'r amgylchedd er mwyn galluogi plant i fod yn ddysgwyr gweithredol?

### A yw ymarferwyr:

- yn darparu cwricwlwm ac amgylchedd cyfoethog a symbylol sy'n hyrwyddo datblygiad cyffredinol plant;
- yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau sy'n heriol ond sy'n gyflawnadwy y tu mewn ac yn yr awyr agored;
- yn gwrando ar hyn sydd gan blant i'w ddweud yn ffurfiol ac yn anffurfiol;
- yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gyfoethog o ran print, yn y Saesneg a/neu'r Gymraeg ac yn iaith gartref y plant fel y bo'n briodol;
- yn darparu digonedd o le ac amser i blant chwarae a dysgu y tu mewn ac yn yr awyr agored;
- yn darparu model rôl dda o ran iaith yn y Saesneg a/neu'r Gymraeg;
- yn sicrhau nad yw sesiynau a arweinir gan oedolyn yn mynd ar gymaint o gyflymder fel bod rhai plant yn ei chael yn anodd cynnal y cyflymder neu mor araf fel bod plant yn colli diddordeb;
- yn sicrhau bod sesiynau a arweinir gan blant yn caniatáu digon o amser i'r plant arbrofi a dysgu ar eu cyflymder eu hunain, ond heb fod mor hir fel bod y plant yn colli diddordeb ac mae'r chwarae'n troi'n ddiamcan;
- yn darparu amgylchedd sy'n caniatáu i blant ddatblygu'n annibynnol; er enghraifft, sicrhau bod adnoddau yn cael eu cadw lle gall plant gael mynediad atynt yn hawdd;
- yn trefnu adnoddau mewn modd fel y gall plant ddewis yr hyn yr hoffent ei ddefnyddio a phryd;
- yn annog annibyniaeth plant drwy sefydlu amserlen gadarn;
- yn cynllunio amrywiaeth o ddulliau addysgu er mwyn ymgysylltu â phob plentyn;
- yn gwneud defnydd da o ymwelwyr ac ymweliadau er mwyn ysgogi ac ehangu profiadau chwarae plant;
- yn cynnig digonedd o gyfleoedd i blant gyfathrebu mewn pob math o ffyrdd gwahanol; a
- darparu cyfleoedd i blant fod yn llonydd ac yn ddistaw ond hefyd i fod yn rhan o chwarae bywiog, egniol?



**Astudiaethau achos** Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos enghreifftiau o sut y mae ymarferwyr yn cynllunio'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu er mwyn sicrhau bod plant yn weithredol ac wedi'u hymgysylltu'n llawn mewn dysgu.

## Gadewch i ni ddringo

### Cyd-destun

**Mewn lleoliad y blynyddoedd cynnar, gosodwyd yr amgylchedd fel bod modd cael mynediad yn hawdd at ardaloedd ac er mwyn annog datblygu medrau plant.**

### Beth a wnaeth y plant?

Fel rhan o'u darpariaeth barhaus, gwnaeth ymarferwyr ddefnydd da o ffrâm chwarae/dringo drwy osod y cyfarpar yng nghanol y lleoliad. Wrth i blant basio'r ffrâm chwarae/dringo, wrth symud o un gweithgaredd i un arall, roeddent yn aml yn stopio ar y ffordd ac yn ei defnyddio am ychydig funudau cyn symud ymlaen.

### Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant sut i gydbwyso a dringo a daethant yn fwy hyderus yn gorfforol.

### Meysydd dysgu

- datblygiad corfforol



## ‘Teimlo’r’ tywydd

### Cyd-destun

**Gwnaeth ymarferwyr yn gweithio gyda phlant ifanc yn iau na phump oed mewn dosbarth arbennig wella darpariaeth yn rheolaidd drwy gynllunio gweithgareddau o amgylch profiadau synhwyraidd.**

### Beth a wnaeth y plant?

Ar ôl mynd allan i’r awyr agored i ‘deimlo’r tywydd’, cyfleodd grŵp o blant sut yr oedd y tywydd drwy ymateb i’r sbardunau a ddefnyddiwyd gan yr ymarferwyr i gynrychioli’r tywydd. Er enghraifft, trwy ystumiau neu fynegiant y wyneb dangosodd y plant os oedd y tywydd yn wyntog pan gafodd ffan fach ei rhoi yn agos at eu hwyneb neu os oedd y tywydd yn wlyb pan gafodd ychydig o ddŵr ei chwistrellu ar eu dwylo.

### Beth y maent yn ei ddysgu?

Dysgodd y plant i gyfleu ffeithiau am y tywydd.

### Maes dysgu

- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

## Defnyddio ardaloedd chwarae neu barthau dysgu

### Cyd-destun

**Roedd ymarferwyr mewn ysgol fabanod yn llwyddiannus wrth ddarparu amgylchedd dysgu cyfoethog drwy greu ardaloedd chwarae diddorol gydag adnoddau o safon. Cafodd yr ardaloedd chwarae eu newid yn rheolaidd ac ychwanegwyd adnoddau i’r ddarpariaeth.**

### Beth a wnaeth y plant?

Datblygodd ymarferwyr nifer o fannau chwarae fel ardal gemau, ardal chwarae rôl mewn ystafell newyddion gyda meicroffonau llaw, recordyddion tâp a chamerâu, cornel ‘dwylo prysur’ ac ardal ymchwilio. Roedd gan bob ardal chwarae amcanion clir ar gyfer dysgu’r plant. Dewisodd y plant pryd yr oeddent yn dymuno defnyddio’r ardaloedd hyn a phryd i ymgymryd â thasgau â ffocws.

### Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant annibyniaeth ac i reoli eu hamser.

### Maes dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol



# Annog annibyniaeth

## Cyd-destun

**Cynlluniodd ymarferwyr mewn lleoliad y blynyddoedd cynnar weithgareddau yn arbennig er mwyn annog annibyniaeth plant.**

## Beth a wnaeth y plant?

Gwnaeth y plant hunan-gofrestru wrth gyrraedd. Gwnaethon nhw ddewis pryd i fynd i'r bar byrbrydau drwy ddod o hyd i'w henw a llun a'i bostio mewn blwch; gan ddewis eu ffrwyth neu fyrbryd eu hunain a'i dorri ar eu pen eu hunain; gwneud tost gyda help oedolyn; a thaenu eu menyn eu hunain a dewis yr hyn yr oeddent am ei roi ar y tost. Gwnaeth y plant lanhau eu dannedd yn annibynnol ar ôl y byrbryd a phostio eu llun mewn blwch er mwyn dangos eu bod wedi gwneud hyn. Yn eu tro, cymysgodd grwpiau o blant baent a thoes gyda'r staff bob dydd a gosod yr adnoddau. Dewiswyd monitor dŵr a monitor ynni bob dydd er mwyn sicrhau bod yr ymarferwyr a'r plant yn cau tapiau dŵr a sicrhau nad oedd ymarferwyr yn gadael y goleuadau ynghyn yn ddiangen. Er y cynlluniwyd y gweithgareddau hyn fel rhan o ddarpariaeth barhaus y lleoliad, yn wreiddiol, roedd pob gweithgaredd yn dasg â ffocws, a arweiniwyd ac a gefnogwyd gan ymarferwyr.

## Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant i ddewis a chymryd cyfrifoldeb dros yr hyn a wnaethon nhw. Dysgon nhw sut i ddefnyddio offer bach fel cyllyll i wneud byrbrydau.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- datblygiad corfforol

**Gwnaeth y plant lanhau eu dannedd yn annibynnol ar ôl y byrbryd a phostio eu llun mewn blwch er mwyn dangos eu bod wedi gwneud hyn.**



## Cwestiwn 5:
A oes gan ymarferwyr nodau ac amcanion clir ar gyfer dysgu plant drwy chwarae?

### A yw ymarferwyr:



- yn sicrhau bod chwarae'n cael ei ddefnyddio'n dda i hyrwyddo dysgu gweithredol ar draws pob maes dysgu;
- yn sicrhau bod potensial dysgu gweithgareddau yn cael ei nodi a'i ddeall yn glir gan bob ymarferydd;
- yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio profiadau plant fel bod y nodau a'r amcanion yn cael eu rhannu;
- yn defnyddio chwarae rôl yn effeithiol er mwyn annog plant i actio ac ymarfer sefyllfaoedd newydd a chyfarwydd;
- yn darparu adnoddau sy'n ddigon hyblyg i'w defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol;
- yn annog plant i archwilio ac ymchwilio i'w byd;
- yn cynllunio gweithgareddau sy'n annog plant i adnabod tebygrwydd a derbyn gwahaniaeth rhwng eu hunain a phobl eraill a dathlu pwy ydyn nhw;
- yn trefnu amser i blant ddweud wrth ei gilydd yr hyn maent wedi ei ddysgu yn ystod eu chwarae neu i ddisgrifio'r hyn y maent wedi bod yn ei wneud er mwyn sicrhau bod y dibenion dysgu wedi cael eu cyflawni; ac
- yn annog ac yn cefnogi plant i ddefnyddio ystod o offer TGCh fel chwaraeyddion CD, recordyddion tâp, teganau rhaglenadwy a chamerâu fel rhan o'u chwarae?



**Astudiaethau achos** Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos sut y mae ymarferwyr yn cynllunio'n ofalus er mwyn gwneud yn fawr o ddysgu plant.

# Yn y caffi

## Cyd-destun

**Dysgodd plant tair oed mewn lleoliad fod rheolau yn bwysig.**

## Beth a wnaeth y plant?

Roedd gan ymarferwyr mewn lleoliad ddibenion dysgu clir a phenodol ar gyfer eu caffi chwarae rôl. Cymerodd plant eu tro (gyda threfn ddyddiol) i fod yn gogydd a'r gweinydd/gweinyddes. Ymwelodd pedwar plentyn ar y tro â'r caffi ar gyfer eu byrbryd canol bore. Gwnaeth y cogydd roi tost ar y plât ac arllwys diodydd, tra'r oedd y staff gweini'n nodi ar bapur a oedd eu cwsmeriaid am gael llaeth neu sudd, un neu ddau ddarn o dost. Yna, cafodd tost a diodydd eu gweini i'r 'cwsmeriaid' a oedd yn helpu eu hunain i daeniad ar gyfer eu tost os oeddent yn dymuno hynny. Roedd taeniad caws ar gael mewn tiwb a chafodd y plant eu hannog i'w wasgu ar y tost yn siâp 'llythyren y dydd'. Ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben, golchodd y gweinydd/gweinyddes y bwrdd a phentyrru'r platiau ar gyfer eu golchi. Cyn gynted ag yr oedd y cwsmer wedi gorffen ei fyrbryd, gwnaeth y gweinydd/gweinyddes gyhoeddi bod lle ar gael ac roedd plentyn arall yn cymryd eu lle. Dyma enghraifft o weithgaredd â ffocws a arweiniwyd gan yr ymarferydd, sydd, dros amser, wedi dod yn rhan o ddarpariaeth barhaus y lleoliad.

## Beth ydyn nhw yn ei ddysgu?

Dysgodd plant i gymryd cyfrifoldeb. Dysgon nhw i ddangos gofal tuag at bobl eraill a'u hystyried. Datblygodd plant eu cydlynedd llaw-llygad drwy arllwys diodydd a defnyddio offer bach fel cyllyll.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- datblygiad mathemategol
- datblygiad corfforol



# 'Pants'

## Cyd-destun

**Gwnaeth ymarferydd mewn lleoliad meithrin arwain a rheoli gweithgaredd â ffocws gyda grŵp mawr o blant ifanc iawn. Cafodd y sesiwn ei chynllunio a'i threfnu'n dda, yn yr un modd ag yr oedd y gweithgareddau atodol. Roedd y cynllunio'n nodi gweithgareddau a fyddai'n cael eu harwain gan oedolion a gweithgareddau a fyddai'n cael eu harwain gan blant ac roedd yn glir ynghylch yr hyn yr oedd yr ymarferydd am i'r plant ei ddysgu ar ddiwedd y sesiwn. Defnyddiodd yr ymarferydd y llyfr lluniau 'Pants' fel man cychwyn ar gyfer y sesiwn.**

Wrth i'r ymarferydd ddarllen y llyfr stori gwnaeth y plant gadw at rythm y rhigwm am bants drwy daro eu coesau.

## Beth a wnaeth y plant?

Agorodd y plant 'blwch trysorau'r dosbarth' a dod o hyd i gês dillad yn cynnwys amrywiaeth o bants o feintiau a ffasiynau gwahanol, pob un mewn lliw a phatrymau gwahanol. Wrth archwilio cynnwys y cês dillad, defnyddiodd a dysgodd bron pob un o'r plant ansoddeiriau yn ymwneud â maint, lliw a phatrwm i ddisgrifio'r pants a darogan pwy y byddai'n eu gwisgo. Wrth i'r ymarferydd ddarllen y llyfr stori gwnaeth y plant gadw at rythm y rhigwm am bants drwy daro eu coesau. Cyfrodd y rhan fwyaf o blant nifer y pants y tu fewn a thu allan i'r cês dillad yn gywir wrth iddynt wrando ar fersiwn gerddorol y rhigwm a chwerthin arno. Ymhlith gweithgareddau cysylltiedig eraill yn ystod y bore roedd y plant yn cynllunio eu pants eu hunain, a oedd yn eu hannog i ddewis lliwiau ac addurniadau ac i ddefnyddio offer print i brintio ar ffabrig. Gwnaeth parau o blant chwilota drwy'r fasged ddillad yn chwilio am bants a gwnaethon nhw drio paru'r pants i ffitio'r dolis a'r tedis yn y lleoliad.

Ar ddiwedd y bore, eisteddodd y plant gyda'i gilydd i ddysgu cân gyfrif syml am bants yn cael eu chwythu oddi ar lein ddillad yn y gwynt.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant i baru a threfnu gwrthrychau gan ddefnyddio ystod o feini prawf gwahanol. Dysgon nhw i ddewis deunyddiau a lliwiau yn eu gwaith creadigol a datblygon nhw ystod o fedrau.

## Meysydd dysgu

- datblygiad mathemategol
- datblygiad creadigol

# Mynd i'r parc

## Cyd-destun

**Cynlluniodd ymarferwyr mewn dosbarth o blant pump oed gyfres o weithgareddau ar gyfer y plant yn ystod ymweliad â'r parc lleol. Cafodd y gweithgareddau eu harwain a'u cyfarwyddo gan ymarferydd.**

## Beth a wnaeth y plant?

Cafodd y dosbarth eu rhannu yn dri grŵp. Gwnaeth y grŵp cyntaf gasglu a threfnu dail, gwnaeth yr ail grŵp greu lluniau gludwaith gan ddefnyddio deunyddiau y daethpwyd o hyd iddynt yn y parc, a gwnaeth y trydydd grŵp beintio gan ddefnyddio llaid a brigau. Yn ystod yr ymweliad ymgymerodd pob plentyn â phob gweithgaredd yn ei dro.

Roedd ymarferwyr yn glir iawn ynghylch yr hyn yr oeddent am i'r plant ei ddysgu o bob gweithgaredd yn ogystal â'r eirfa yr oeddent am ei chyflwyno i'r plant.

## Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant i drefnu, paru a dosbarthu dail. Defnyddion nhw eirfa fel 'amryliw' i ddisgrifio'r hyn yr oeddent yn ei weld. Arbrofodd plant gyda deunyddiau naturiol er mwyn creu gludweithiau a lluniau a daethon nhw'n fwy ymwybodol o batrwm, ansawdd, lliw a ffurf.

## Meysydd dysgu

- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- datblygiad mathemategol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad creadigol



# Her y bêl

## Cyd-destun

**Cafodd plant tair oed, yn gweithio mewn grŵp o bedwar, eu herio i symud pêl ysgafn fach ar hyd drysfa drwy chwythu'r bêl drwy welltyn. Cafodd hyn ei gynllunio fel gweithgaredd â ffocws.**

## Beth a wnaeth y plant?

I ddechrau, cyflwynodd y dasg ychydig o broblemau. Nid oedd y plant yn sylweddoli bod yn rhaid iddynt symud er mwyn symud y bêl, yn debyg iawn i bêl-droed chwythu, a'i fod yn anodd, gyda'r pedwar plentyn yn chwythu ar yr un pryd, rheoli'r bêl gyda chywirdeb o unrhyw fath. Yn y diwedd, gydag ychydig o gymorth oedolyn, sylweddolodd y plant fod angen iddynt symud gyda'r bêl er mwyn ei rheoli drwy'r ddrysfa a chymryd tro i symud y bêl drwy rannau'r ddrysfa. Yna, gofynnwyd i'r plant hyn ddangos i grwpiau eraill o blant yr hyn yr oeddent wedi ei ddysgu, a chreu drysfa anoddach newydd i bobl eraill ei dilyn.

## Beth a ddysgon nhw?

Dysgodd y plant i gydlynu a rheoli eu symudiadau corfforol. Dysgon nhw i aros eu tro ac ymarfer eu medrau er mwyn dangos i bobl eraill.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

**Dysgodd y plant i gydlynu a rheoli eu symudiadau corfforol.**

# Ho'r môr-ladron

## Cyd-destun

**Gwnaeth ymarferydd mewn dosbarth o blant saith oed gynllunio a pharatoi yn fanwl cyfres o weithgareddau â ffocws yn gysylltiedig â'r thema môr-ladron.**

## Beth a wnaeth y plant?

Tra'r oedd yr ymarferydd yn gweithio gyda grŵp o blant i nodi geiriau disgrifiadol a allai wella eu hysgrifennu am fôr-ladron, gweithiodd grŵp o blant yn yr awyr agored yn creu ynysoedd bach ar gyfer y môr-ladron, tra'r oedd grwpiau eraill yn llunio mapiau o ynys anghyfannedd (gan gynnwys allwedd), neu'n ymarfer drama yr oeddent wedi'i hysgrifennu am fôr-ladron. Ar ddiwedd y sesiwn, roedd y plant yn gallu esbonio'r hyn a wnaethpwyd, yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu, a'r hyn y byddent yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf pe na fyddai pethau wedi gweithio fel y bwriadwyd.

## Beth a ddysgon nhw?


Dysgodd y plant i weithio gan ddefnyddio eu dychymyg, ac i weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol. Nodon nhw'r hyn yr oeddent wedi'i wneud yn dda a sut y gallent wella.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Ar ddiwedd y sesiwn, roedd y plant yn gallu esbonio'r hyn a wnaethpwyd, yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu, a'r hyn y byddent yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf pe na fyddai pethau wedi gweithio fel y bwriadwyd.

# Profiadau dysgu a lles



## Cwestiwn 6:

A yw plant yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o benderfynu ar ffocws y wers, ac wrth gynllunio a gosod ardaloedd chwarae y tu fewn ac yn yr awyr agored?

### A yw ymarferwyr yn sicrhau:

- bod cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a gweithgareddau a gychwynnir gan blant (gweithgareddau sy'n cael eu dewis yn rhydd gan y plentyn) y tu mewn ac yn yr awyr agored;
- bod cynllunio tymor byr yn ddigon hyblyg i addasu i amgylchiadau sy'n newydd ac i ddiddordebau'r plentyn;
- bod plant yn teimlo bod eu hymdrechion a'u syniadau yn cael eu gwerthfawrogi;
- eu bod yn annog plant i brofi eu syniadau eu hunain;
- eu bod yn ymgynghori'n rheolaidd â phlant ynghylch yr hyn yr hoffent ddysgu amdano er mwyn gwneud defnydd da o ddiddordebau a phrofiadau plant; ac
- eu bod yn dod i wybod sut y mae plant yn chwarae yn y cartref ac yn gwerthfawrogi dulliau diwylliannol gwahanol o chwarae?



**Astudiaethau achos** Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos enghreifftiau o sut y mae ymarferwyr wedi gwrando ar syniadau plant ac ymateb iddynt a chaniatáu plant i arwain eu dysgu.

# Tyfu cennin

### Cyd-destun

**Penderfynodd dosbarth o blant pump oed mewn ysgol gynradd, a oedd yn paratoi ar gyfer Dydd Gŵyl Ddewi, y byddent yn hoffi tyfu cennin gan nad oed y mwyafrif wedi gweld na blasu cennin.**

### Beth a wnaeth y plant?

Ysgrifennodd y plant lythyrau at gyngor yr ysgol yn gofyn iddynt wneud cais i'r llywodraethwyr am ardal fach yn y lle chwarae i ddefnyddio a thyfu cennin. Ar ôl i hyn gael ei gymeradwyo, gwahoddodd y dosbarth aelodau'r gymuned a oedd yn arddwyr brwd i ddod i'r ysgol i siarad am dyfu cennin ac i ddod ag enghreifftiau o'u cynnyrch. Ar ôl llawer o waith caled, llwyddodd y plant i dyfu a chynaeafu cnwd da o gennin. Gwnaethpwyd cawl cennin a hufen iâ cennin hyd yn oed, gwerthwyd gweddill y cennin i rieni a gofalwyr a defnyddiwyd yr arian a wnaethpwyd i brynu bylbiau newydd. Newidiodd cynllunio'r ymarferwyr yn sylweddol yn ystod cyfnod y prosiect er mwyn elwa ar ddiddordeb y plan mewn tyfu cennin.

### Beth a ddysgodd y plant?

Dangosodd y plant agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd a datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas. Dysgon nhw i weld y cysylltiadau rhwng achos ac effaith yng nghyd-destun sut y mae planhigion yn tyfu. Dysgon nhw'r hyn sydd ei angen ar blanhigion er mwyn tyfu'n iach a sut y caiff llysiau eu tyfu.

### Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd



# Pethau'n sy'n mynd clec yn y nos

## Cyd-destun

**Dewisodd grŵp o blant saith oed ymweld â chornel lyfrau'r dosbarth.**

## Beth a wnaeth y plant?

Ar ôl darllen stori 'arswyd' yn y gornel lyfrau, penderfynodd y plant greu eu llyfr eu hunain am yr hyn a oedd yn codi ofn arnynt drwy dorri lluniau o gylchgronau o bethau fel nadroedd, corynod, adeiladau tal ayb. Yna, cafodd y llyfr ei rannu â'r dosbarth cyfan, ac ysgogodd drafodaeth mor dda fel bod yr ymarferydd arweiniol wedi rhoi'r gorau i'w chynllunio am weddill yr wythnos er mwyn edrych ar ofnau'r holl ddosbarth a'u lleddfu.

## Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant i gydnabod a mynegi eu teimladau a'u hemosiynau. Gwnaethon nhw wrando ac ymateb i ofnau a gofidiau pobl eraill a sylweddoli bod y gofidiau hyn yn cael eu rhannu. Dysgon nhw hefyd ei fod yn rhyddhad rhannu pryderon a dod o hyd i ffyrdd o ddelio â nhw.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

> Gwnaethon nhw wrando ac ymateb i ofnau a gofidiau pobl eraill a sylweddoli bod y gofidiau hyn yn cael eu rhannu.

# Fe chwythaf a chwythaf a chwythu eich tŷ i lawr

## Cyd-destun

**Roedd dosbarth o blant tair oed yn dysgu am dai a chartrefi. Fel rhan o thema'r dosbarth gwrandawodd y plant ar stori'r 'Tri Mochyn Bach'. Yna, cododd plant unigol gartrefi ar gyfer y moch.**

## Beth a wnaeth y plant?

Gwnaeth plentyn tair oed, yn ystod y gweithgaredd 'adeiladu tŷ' a ddilynodd gwrando ar dâp stori'r 'Tri Mochyn Bach', benderfynu bod yn flaidd a chwythu'r holl dai yr oedd y plant eraill wedi bod yn eu creu o garden, papur a gwellt, i lawr. Wrth adnabod yr ymyrraeth sydyn, ond nid cwbl anrhagweladwy, fel cyfle, newidiodd yr ymarferydd arweiniol ffocws y wers a gofyn i'r plant sut y gallent adeiladu tai cryfach er mwyn atal eu tai rhag cwympo i lawr pan yr oedd y blaidd yn chwythu. Gwnaeth y plant roi cynnig ar greu mathau gwahanol o dai gwellt er mwyn gweld a oedd nifer y gwellt a ddefnyddwyd i adeiladu tai yn bwysig neu a oedd y ffordd y cafodd y gwellt eu cysylltu â'i gilydd yn gwneud gwahaniaeth. Ar ôl llawer o chwerthin gwnaeth y plant ddeall bod mwy o wellt yn gwneud tai yn gryfach ac mae'r tai gorau oedd y rheiny lle'r oedd y gwellt wedi'u cysylltu â'i gilydd yn gadarn.

## Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant i adnabod sut y byddent y gwybod os oedd rhywbeth wedi gweithio drwy ei brofi. Dysgon nhw dyfalbarhad ac na fyddai popeth a gafodd ei adeiladu yn berffaith y tro cyntaf y profwyd ef.

## Maes dysgu

- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad creadigol



# Parlwr Pitsa

## Cyd-destun

**Roedd grŵp o blant tair oed mewn lleoliad meithrin mawr yn chwarae yng nghornel chwarae rôl y cartref.**

## Beth a wnaeth y plant?

Ar ôl cyfnod o 'chwarae tŷ' penderfynodd y plant roi tafellai o bitsa plastig i mewn i flwch cardfwrdd a'i ddosbarthu i'r plant a oedd yn chwarae y tu allan. Cafodd hyn ei ailadrodd nifer o weithiau gyda phlant gwahanol yn cael 'pitsa wedi'i ddosbarthu i'r cartref'. Arsylwodd yr ymarferwyr y plant yn ystod y gweithgaredd hwn a phenderfynu manteisio ar y diddordeb yr oedd y dosbarthu pitsa wedi'i greu. Gwnaethon nhw newid y gornel gartref yn Barlwr Pitsa. Ar ôl hynny, ychwanegwyd bwydlenni o Barlyrau Pitsa a thaflenni'n hysbysebu dosbarthu i'r cartref a beic â threlar bach a gafodd ei droi'n fan dosbarthu pitsa.

## Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant i archwilio eu hamgylchedd ac arbrofi gyda'u syniadau eu hunain.

## Meysydd dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

**Ar ôl cyfnod o 'chwarae tŷ' penderfynodd y plant roi tafellai o bitsa plastig i mewn i flwch cardfwrdd a'i ddosbarthu i'r plant a oedd yn chwarae y tu allan.**

# Lleisiau plant

## Cyd-destun

**Bob bore, rhoddwyd y cyfle i blant ifanc mewn lleoliad drafod yr hyn yr hoffent ei wneud yn ystod y dydd.**

## Beth a wnaeth y plant?

Yn ystod amser cylch, siaradodd y plant am ba weithgareddau a arweinir gan oedolion y byddent yn hoffi eu gwneud neu a oeddent am ddewis gwneud rhywbeth arall. Gofynnwyd iddynt ddewis gweithgaredd yr oeddent wedi'i wneud yn ddiweddar ond hefyd i'w ddatblygu ymhellach neu i'w wella mewn rhyw ffordd. Ar ôl siarad am yr hyn yr oeddent wedi'i ddewis, 'ysgrifennodd' y plant eu syniadau i lawr. Defnyddion nhw luniau neu symbolau i gofnodi eu syniadau. Defnyddiodd rhai o'r plant uwch eu gallu ysgrifennu allddodol i ffurfio ychydig o lythrennau neu eiriau. Ysgrifennodd ymarferwyr ar ran ysgrifennwyr iau neu 'amharod'. Gwnaeth yr ymarferwyr roi'r syniadau hyn ar fwrdd 'lleisiau plant' ar y wal, a adawyd yno er mwyn i oedolion a phlant gael cyfeirio ato yn ystod y dydd. Yn ystod yr 'amser myfyrio' dyddiol, gwnaeth ymarferwyr annog plant tair a phedair oed i drafod gweithgareddau a'u hymatebion i'r gweithgareddau hynny.



Roedd hyn yn aml yn cynnwys sylwadau ynghylch sut yr oeddent wedi mwynhau gweithgaredd neu ba mor llwyddiannus yr oeddent yn teimlo eu bod wedi ymgymryd ag ef. Hefyd, gwnaeth plant drafod pa mor dda yr oeddent wedi gweithio gyda phlant eraill a sut yr oeddent wedi goresgyn anawsterau a gododd wrth wneud hynny, a gafwyd unrhyw anghytuno neu a oeddent wedi gallu helpu rhywun arall.

## Beth a ddysgodd y plant?

Dysgodd y plant i reoli eu hamser, i ddewis a nodi'r hyn yr oeddent yn ei wneud yn dda. Dysgon nhw i ddelio â'u hemosiynau ac adfer gwrthdaro.

## Maes dysgu

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

# Addysgu ac arweinyddiaeth

## Cwestiwn 7:

Pa mor wybodus yw ymarferwyr ynghylch pwrpas a defnydd asesu?

### A yw ymarferwyr:

- yn deall bod diwallu anghenion plentyn yn ganolog i ddysgu effeithiol;
- yn sicrhau bod gweithgareddau ar y lefel gywir ar gyfer cam datblygu'r plant y maent yn gweithio gyda nhw;
- yn gwybod bod pob maes dysgu wedi'u cysylltu â'u bod yr un mor bwysig;
- yn deall bod dysgu yn gymhleth a bod plant yn datblygu ac yn aeddfedu ar gyflymder gwahanol;
- yn gwerthfawrogi bod dysgu yn daith a bod angen i bob plentyn adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn ei wybod;
- yn darparu cyfleodd dysgu gwahanol i grwpiau o blant neu i blant unigol a allai fod angen mwy o her neu gymorth ychwanegol;
- yn sicrhau bod gweithdrefnau asesu yn gywir ac yn ddibynadwy drwy drafodaethau tîm rheolaidd a rhannu gwybodaeth a safoni enghreifftiau o waith fel y bo'n briodol;
- yn deall y dylai systemau a ddefnyddir i gofnodi cynnydd plant fod yn berthnasol ac yn bwrpasol ac nad oes angen cofnodi popeth y mae plant yn ei wneud;
- yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael cyfleoedd i gyfrannu at wybodaeth am sut mae eu plentyn yn dysgu orau;
- yn adeiladu cysylltiadau cryf gyda rhieni a gofalwyr drwy rannu gwybodaeth yn rheolaidd;
- yn defnyddio arsylwi plant yn ystod chwarae a dysgu gweithredol yn ofalus, a rhyngweithio â'r chwarae a'r dysgu gweithredol, er mwyn monitro'n gyson holl agweddau dysgu a cham datblygu plentyn;
- yn defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu wrth arsylwi i nodi anghenion plant unigol neu grwpiau o blant a diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus drwy raglen addysgol wedi'i chynllunio; ac
- yn cynllunio arsylwi'n rheolaidd.

**Astudiaethau achos** Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos enghreifftiau o sut y mae ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer parhad a dilyniant dysgu plant.

## Cynllunio gyda'ch gilydd

Mewn ysgol fabanod, roedd arsylwi dysgu plant yn nodwedd gref ymhob dosbarth. Roedd yr ysgol wedi datblygu strategaeth lle'r oedd 'pocedi poli' plastig wedi'u rhoi ar y wal ac roedd yn cynnwys taflenni arsylwi ar gyfer pob maes dysgu. Roedd yr ymarferwyr yn nodi ar y taflenni pan y byddent yn gweld plentyn neu blant yn gwneud rhywbeth arwyddocaol, yr hyn yr oedd yn ei ddweud am eu dysgu a'r hyn y byddai angen iddynt ei wneud nesaf i adeiladu ar y dysgu hwn. Ar ddiwedd bob wythnos byddai'r taflenni'n cael eu coladu a'u trafod yn y sesiynau cynllunio wythnosol a byddai cynllunio' cael ei addasu fel yr oedd yn briodol. Roedd yr holl staff yn ymwybodol o anghenion plant unigol a'r hyn yr oedd angen iddynt ganolbwyntio arno gyda phlentyn unigol neu grwpiau o blant.

## Ysgolion medrau

Gweithiodd ymarferwyr mewn ysgol gynradd gyda'i gilydd i nodi setiau o fedrau ar gyfer plant o dair i saith oed y gellir eu datblygu gan ddefnyddio mwy nag un maes dysgu. Er enghraifft, nododd ymarferwyr bod y medrau 'archwilio ac arbrofi ag amrywiaeth o dechnegau' yn gallu cael eu datblygu'r un faint ym maes dysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd ag yn natblygiad creadigol. Yna defnyddiodd ymarferwyr adrannau Ystod y 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' i nodi profiadau perthnasol a fyddai'n datblygu medrau priodol.



## Defnyddio byrddau arddangos

Mewn ysgol gynradd fach, defnyddiwyd dau fwrdd arddangos i sicrhau bod pob ymarferydd yn chwarae rôl weithredol yn asesu dysgu plant. Cafodd un bwrdd ei labelu'n fwrdd cyflawniad: "Beth y gall y plentyn ei wneud?" ac ailabelwyd y llall yn "Mae angen i mi..." h.y. yr hyn y mae angen i'r plentyn ei ddatblygu. Defnyddiodd pob ymarferydd nodiadau gludiog i gofnodi datblygiad y plant a'r ffordd ymlaen a phostiwyd y rhain ar y byrddau perthnasol. Casglwyd y wybodaeth hon yn ddyddiol a byddai pob ymarferydd yn eu trafod mewn cyfarfodydd byr ar ddechrau bob dydd. Gwnaethpwyd nodiadau cryno o bwyntiau allwedd y cyfarfodydd hyn a byddent yn llywio gwaith ymarferwyr yn ystod y diwrnod. Hefyd, nodwyd cerrig milltir allweddol yng nghynnydd plant yn ystod y cyfarfodydd hyn. Ni chafodd y nodiadau gludiog hyn eu cadw, ond cawsant eu hanfon adref gyda'r plant yn lle.

## Creu'r cysylltiadau o'r cartref

Mewn un lleoliad cyn ysgol, cafodd rhieni a gofalwyr eu hannog i lenwi llyfryn asesu cyn i'w plentyn ddechrau yn y lleoliad. Roedd hyn yn helpu ymarferwyr i wybod beth y gallai'r plant ei wneud a beth yr oedd gan y plant ddiddordeb ynddo. Yna, cafodd y llyfrynnau hyn eu defnyddio i gofnodi cynnydd plant yn y lleoliad a'u hanfon adref yn rheolaidd, gan felly helpu i sicrhau cysylltiadau da rhwng y cartref a'r ysgol.

## Cadw lluniau proffil

Roedd gan bob plentyn yn y feithrinfa lun proffil. Byddai chwe llun yn cael eu tynnu o bob plentyn bob tymor. Byddai'r lluniau hyn yn cael eu rhoi yn llyfrynnau'r plant unigol a'u hanodi i ddangos yr hyn yr oedd y gweithgaredd yn ei gynnwys a'r hyn yr oedd y plentyn yn ei ddysgu o'r gweithgaredd. Roedd y lluniau proffil hyn yn ffurfio sylfaen ar gyfer trafodaethau gyda rhieni bob tymor am ddysgu eu plentyn.

## Defnyddio nodiadau maes

Roedd pob ymarferydd mewn ysgol feithrin yn cadw nodiadau maes. Roedd y rhain yn nodi unrhyw beth o bwys yr oedd y plant yn ei wneud neu'n ei ddweud ac a oedd y plant yn dangos diddordeb yn y gweithgaredd ac yn cymryd rhan ynddo. Defnyddiwyd gwybodaeth o'r nodiadau hyn er mwyn cynllunio i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau yn nysgu'r plant ac i sicrhau bod plant uwch eu gallu'n cael eu herio mewn modd addas.

## Defnyddio labeli gludiog

Gwnaethpwyd defnydd da o dechnoleg gwybodaeth mewn ysgol gynradd canolig ei maint er mwyn cefnogi ymarferwyr wrth gofnodi cynnydd plant. Cafodd amcanion dysgu ar gyfer gweithgareddau a arweiniwyd gan oedolion eu hargraffu ar labeli gludiog. Wrth i blant gyflawni eu hamcanion dysgu, rhoddwyd y label ar bortffolio'r plant unigol a'i dyddio.

# Asesu pa mor dda yr oedd plant yn ymateb i heriau

Cafodd plant chwech oed eu hannog i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol wrth ymateb i heriau a osodwyd gan ymarferwyr. Yn aml, byddai'r heriau hyn yn cael eu hysgrifennu ar gardiau er mwyn i'r plant eu dilyn yn ystod yr wythnos neu yng nghynllunio ymarferwyr fel bod pob ymarferydd yn gwybod sut i ymyrryd wrth weld bod diffyg pwrpas i'r chwarae. Ymhlith yr heriau hyn yr oedd pethau fel:

- Sut y gallwch symud y celfi o'r tˆy dol i'r garej heb eu cario yn eich dwylo?
- A allwch greu stori luniau yn y tywod, tynnu ffotograff ohoni, ac adrodd stori'r Arth Fach?

Cafodd ymateb y plant i'r heriau hyn eu nodi a'u trafod yn wythnosol mewn cyfarfodydd tîm wythnosol a chynlluniwyd gwaith pellach o ganlyniad.



## Y wal ddysgu

Mewn dosbarth meithrin, dathlwyd dysgu plant drwy ddefnyddio arddangosfa 'wal ddysgu'. Roedd yr arddangosfa'n dangos lluniau dysgu plant a byddai'r rhain yn cael eu labelu i ddangos ymddygiad dysgu da fel rhannu da, a gweithio gyda'i gilydd yn dda.

# Nodi camau nesaf plant mewn datblygiad corfforol

## Astudiaeth 1

Defnyddiwyd taflenni cynllunio dyddiol gan ymarferwyr mewn dosbarth o blant pump oed i nodi unrhyw waith ychwanegol yr oedd ei angen gydag unigolion neu grwpiau o blant er mwyn atgyfnerthu/ehangu eu dysgu. Yna defnyddiwyd y taflenni cynllunio dyddiol hyn i gynllunio gweithgareddau penodol ar gyfer yr wythnos ganlynol. Er enghraifft, ar ôl gwneud cawl gyda grŵp o blant, nododd yr ymarferydd fod bron pob un o'r plant wedi'i chael yn anodd defnyddio cyllell. Yr wythnos ganlynol darparwyd llawer o weithgareddau i'r plant fel rhoi menyn ar fara a thorri ffrwythau er mwyn datblygu medrau corfforol gwell.

## Astudiaeth 2

Yn gynnar yn y flwyddyn ysgol, nododd ymarferwyr mewn dosbarth o blant tair oed fod y rhan fwyaf o'r plant yn ei chael yn anodd dal a defnyddio offer bach fel pensiliau a brwshys paint. Ar ôl hynny, cynlluniwyd amrywiaeth o weithgareddau hwyl er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon. Er enghraifft, defnyddiodd plant amrywiaeth o declynnau bach er mwyn palu i mewn i flociau mawr o iâ er mwyn cael gafael ar wrthrychau bach neu ddefnyddio gweill bwyta i godi gwrthrychau bach a oedd wedi'u cuddio yn y tywod.

# 'Hugan Fach Goch' - arsylwi plant wrth iddynt chwarae

## Cyd-destun

**Roedd plant chwech oed yn dysgu am 'fwyta'n iach'.**

## Beth a wnaeth y plant?

Ar ôl darllen stori'r 'Hugan Fach Goch' penderfynodd grŵp o blant ddefnyddio ffrwythau a oedd yn weddill o'u siop fwyd i wneud basged iach o ffrwythau i mam-gu. Penderfynon nhw ychwanegu un gacen, nid pecyn gan fod siwgr yn ddrwg i'r dannedd. Gwnaethon nhw gyfiawnhau ychwanegu cacen fel rhywbeth neis i mam-gu gan ei bod yn y gwely, ond penderfynon nhw ychwanegu brwsh dannedd a phast dannedd o'r gornel chwarae rôl er mwyn eu hatgoffa i lanhau ei dannedd wedyn.

## Beth a ddysgodd yr ymarferwyr?

Gallai'r ymarferwyr weld yn glir os oedd gan y grŵp hwn o blant ddealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud â bwyta'n iach. Er enghraifft, roedd y grŵp o blant yn gwybod bod rhai bwydydd yn ddrwg i'ch dannedd.

**Penderfynon nhw ychwanegu un gacen, nid pecyn gan fod siwgr yn ddrwg i'r dannedd.**

# Gwella ansawdd

## Cwestiwn 8:
Sut y mae ymarferwyr yn gwybod bod dulliau chwarae a dysgu gweithredol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant?

### A yw ymarferwyr:

- yn casglu data ansoddol a meintiol i ddangos bod gan ddull mwy gweithredol o ddysgu fanteision clir i blant;
- yn arfarnu llwyddiant y cyfleoedd a gynigir i blant o ran pa ddysgu sy'n digwydd a pham yn rheolaidd;
- yn teimlo'n hyderus bod pob plentyn yn gwneud cynnydd da ymhob maes dysgu;
- yn gofyn i blant pa weithgareddau y maent yn teimlo sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid;
- yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth am blant unigol neu grwpiau o blant;
- yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr er mwyn gofyn iddynt sut y mae eu plant yn dod yn eu blaenau yn y Cyfnod Sylfaen yn eu barn nhw; ac
- wedi sefydlu systemau i fonitro cynnydd grwpiau gwahanol o blant?



**Astudiaethau achos** Mae'r astudiaethau achos hyn yn darparu enghreifftiau o sut y mae ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i nodi a yw ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar chwarae yn effeithio'n gadarnhaol ar agweddau, medrau a gwybodaeth plant.

## Mesur hunan-barch plant

Defnyddiodd ymarferwyr plant dan bump mewn ysgol gynradd becyn asesu masnachol i fesur hunan-barch plant cyn ac ar ôl addasu ymagwedd fwy gweithredol at ddysgu. Roedd hunan-barch pob plentyn wedi gwella, a wnaeth arwain yn ei dro at blant yn dod yn fwy hyderus ac yn barod i 'roi cynnig arni' mewn gweithgareddau yr oedd y plant wedi'u hystyried yn 'waith', fel dysgu seiniau cychwynnol.

## Olrhain gwelliannau ym medrau echddygol manwl plant

Nododd ymarferwyr mewn lleoliad nad oedd plant yn cymryd cymaint o fantais o weithgareddau wedi'u cynllunio y tu mewn er mwyn datblygu eu medrau echddygol manwl ag yr oeddent wedi gobeithio. Penderfynodd ymarferwyr wneud defnydd gwell o'r gwagle y tu allan gan ganiatáu i blant ddefnyddio brwshys paent mawr i beintio ar ddalennau mawr iawn o bapur a chreu blychau pastai llaid lle gallai plant ddefnyddio offer i balu. Nododd ymarferwyr welliannau ym medrau echddygol manwl bron pob plentyn ac roeddent yn hapus bod y plant yn trosglwyddo'r medrau hyn i weithgareddau y tu mewn.

## Nodi medrau chwarae plant

Mewn lleoliad meithrin, datblygodd ymarferwyr restr o 'fedrau chwarae' yr oeddent am i'w plant ddatblygu dros amser, fel gallu i gydweithio, aros eu tro, a dangos cyffro a hyder. Aseswyd plant bob tymor gan ddefnyddio'r medrau chwarae hyn er mwyn gwirio eu bod yn gwneud cynnydd da.

## Montiro defnydd o feysydd dysgu

Roedd archwiliad o sut yr oedd plant yn defnyddio meysydd dysgu mewn dosbarth o blant pump oed yn dangos bod bechgyn yn aml yn amharod i fynd i'r gornel lyfrau ac edrych ar lyfrau. Creodd ymarferwyr gornel lyfrau ychwanegol yn yr awyr agored a monitro'r defnydd ohono. Dros gyfnod o wythnos, cofnododd y lleoliad fod yr holl fechgyn wedi ymweld â'r gornel llyfrau y tu allan o leiaf unwaith y dydd a bod pob bachgen yn dangos medrau gwell o ran gafael mewn llyfrau'n gywir ac ymddwyn fel 'darllenwyr'.

## Olrhain gwelliannau yn ysgrifennu plant

Roedd ymarferydd mewn dosbarth o blant saith oed yn pryderu nad oedd plant yn mwynhau ysgrifennu gan nad oedd y gwaith ysgrifenedig yr oedd y plant yn ei gynhyrchu o ansawdd da bob tro. Roedd diffyg dychymyg ynddynt ac roeddent yn fyr o ran eu hyd. Roedd addasu ymagwedd a oedd wedi'i seilio'n fwy ar chwarae/ymagwedd weithredol at y cwricwlwm yn golygu bod gan plant yn cael llawer o brofiadau mwy uniongyrchol cyn ysgrifennu. Roedd enghreifftiau o ysgrifennu a gadwyd cyn ac ar ôl tymor o ddefnyddio ymagwedd o'r fath yn dangos gwelliannau clir yn ysgrifennu pob plentyn a gwelliannu sylweddol arbennig yn y rhai mwyaf abl.

## Gofyn i rieni a gofalwyr

Er mwyn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall pwysigrwydd chwarae yn nysgu plant a hefyd i fesur canfyddiadau rhieni/gofalwyr am y Cyfnod Sylfaen, cynhaliodd ysgol wythnos agored. Daeth rhieni/gofalwyr i mewn i'r ysgol ac arsylwi'r plant yn ymgymryd â'u gweithgareddau dyddiol a chael cyfle i holi'r ymarferwyr am bwrpas y gweithgareddau chwarae wedi'u cynllunio a gweithgareddau chwarae nad oeddent wedi'u cynllunio. Yna, gofynnwyd i rieni/gofalwyr a fynychodd lenwi holiadur yn gofyn am eu barn am yr hyn y gwnaethon nhw ei weld ac a oeddent wedi sylwi ar unrhyw newid yn eu plentyn ers i'r ysgol ddechrau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Cafodd yr holiaduron eu dadansoddi ac roeddent yn dangos bod bron pob rhiant/gofalwr yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r hyn yr oedd y plant yn ei ddysgu ar ôl dod i'r ysgol. Gwnaeth rhieni/gofalwyr unigol roi enghreifftiau o sut yr oeddent yn teimlo bod eu plant yn elwa o'r Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, nododd rhieni/gofalwyr unigol fod eu plant yn teimlo'n fwy hyderus, yn ymddangos yn hapusach i ddod i'r ysgol ac yn siarad mwy am yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn yr ysgol nag yr oeddent yn y gorffennol.

*Cafodd yr holiaduron eu dadansoddi ac roeddent yn dangos bod bron pob rhiant/gofalwr yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r hyn yr oedd y plant yn ei ddysgu ar ôl dod i'r ysgol.*

# Cydnabyddiaethau

Mae Estyn yn ddiolchgar i'r ysgolion a'r lleoliadau a ddarparodd enghreifftiau o arfer dda ac a rannodd wybodaeth gyda'r tîm o arolygwyr a ymgymerodd â'r arolwg ar gyfer y cyhoeddiad hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau achos yn enghreifftiau a gymerwyd o ysgolion a lleoliadau unigol, er, yn achlysurol, lle gwelwyd arfer debyg mewn nifer o leoedd, mae astudiaeth achos gyfansawdd wedi cael ei chynnwys. Ymwelodd arolygwyr Estyn â'r ysgolion a'r lleoliadau canlynol:

Cylch Chwarae Cyn Ysgol Llanfyllin, Powys
Cylch Meithrin Llanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn
Cylch Meithrin Pont-y-pŵl, Torfaen
Meithrinfa Ddydd Abacus, Sir Fynwy
Meithrinfa Ddydd Bright Start, Sir Benfro
Meithrinfa Ddydd Puddle Ducks, Sir Fynwy
Ysgol Arbennig Heronsbridge, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Bryn Garth, Sir y Fflint
Ysgol Capel Seion, Ceredigion
Ysgol Edern, Gwynedd
Ysgol Fabanod Abercaseg, Gwynedd
Ysgol Fabanod Dinas Powys, Bro Morgannwg
Ysgol Fabanod y Goetre, Merthyr Tudful
Ysgol Fabanod Porth Tywyn, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Feithrin y Gurnos, Merthyr Tudful
Ysgol Feithrin Rhydfelen, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Feithrin Tremorfa, Caerdydd
Ysgol y Gaer, Wrecsam
Ysgol Gwaelod y Garth, Caerdydd
Ysgol Gynradd Babyddol y Santes Fair, Wrecsam
Ysgol Gynradd Gymunedol Gwersyllt, Wrecsam
Ysgol Gynradd Llancarfan, Bro Morgannwg
Ysgol Gynradd Pen y Cae, Wrecsam
Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Casnewydd
Ysgol Llanllechid, Gwynedd
Ysgol Rhiw Bechan, Powys
Ysgol Tanycastell, Gwynedd
Ysgol Treganna, Caerdydd

**Derbyniodd tîm yr arolwg wybodaeth ychwanegol gan:**

Meithrinfa Ddydd Prifysgol Morgannwg
Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin, Caerffili
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, Casnewydd
Ysgol Gynradd Pontllanfraith, Caerffili

Mae Estyn yn ddiolchgar i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am ganiatâd i ddefnyddio detholiad o ffotograffau o'u 'Llyfrgell Ffotograffau'.

Diolch yn arbennig hefyd i Isabella Bullas, y mae ei lluniau tŷ, llong a blodau wedi'u cyflwyno yn y tudalennau hyn.